
AM DDIM

Cyfnodolyn yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 244 Hydref - Tachwedd 2023

# Gwyliedydd



- NEWYDDION AC YSGRIFAU
- BATHAFARN BACH
- COLOFN NEWYDD I'R RHAI SY'N DYSGU CYMRAEG


# Croeso, Andrew!

Mae gan y Synod Gadeirydd newydd, sef y Parchedig Andrew Charlesworth. Bydd yn cydweithio â'r Parchedig Ddr Jennie Hurd sydd yn parhau i wasanaethu fel un o ddau Gadeirydd ein Synod. Rydym yn falch iawn o gael croesawu'r Parchedig Charlesworth atom wrth iddo ddechrau yn ei swydd newydd. Dyma ychydig o'i hanes.

Cafodd Andrew ei fagu mewn teulu Methodistaidd ym Manceinion. Aeth i Brifysgol Nottingham i astudio Mathemateg ac ar ôl graddio dechreuodd weithio fel Ystadegydd Meddygol yn Nottingham, ym maes treialon clinigol. Trwy Methsoc yn y Brifysgol y cyfarfu â'i wraig Sarah ac yn ystod eu hamser yn Nottingham fe anwyd iddynt ddwy ferch sef Phoebe ac Abi.

Gall Andrew ddweud i'r funud pryd y daeth yn ymwybodol ei fod yn cael ei alw i'r weinidogaeth. Roedd yn digwydd bod 35000 troedfedd uwchlaw Cefnfor yr Iwerydd, ar ei ffordd yn ôl o gynhadledd feddygol yn Orleans Newydd, pan synhwyrodd fod Duw yn "symud ei fywyd i gyfeiriad y weinidogaeth". Yn dilyn yr alwad hon aeth yn gyntaf i Wesley House, Caergrawnt lle cwblhaodd radd mewn diwinyddiaeth a pharatoi i gael ei ordeinio. Yna aeth yn weinidog ar brawf i Gylchdaith Coventry a Nuneaton. Yn ystod ei amser yn Nhalaith Birmingham, gwasanaethodd Andrew fel Ysgrifennydd Gweinidogion ar Brawf y Dalaith ac yna, ar ôl wyth mlynedd, symudodd y teulu i Dalaith Nottingham a Derby lle bu Andrew am saith mlynedd yn Arolygydd Cylchdaith Gogledd Nottingham.

Yn ystod ei amser yn Nottingham penodwyd Andrew hefyd yn Ddirprwy



Gadeirydd y Dalaith a chafodd flas mawr ar wasanaethu yn y rôl honno. Wedi hynny fe'i penodwyd yn Gadeirydd yn Synod Cymru Wales o Fedi 2023 ymlaen. Mae Andrew'n dysgu Cymraeg ac yn awyddus i wneud cynnydd sylweddol gyda'r iaith yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Ar drothwy'r cyfnod hwn yn ei hanes, yn gwasanaethu Methodistiaid Cymru, mae Andrew'n llawn cyffro ac yn frwd i ddilyn ei alwad. Cred ei fod wedi ei alw i roi ei fywyd i wasanaethu pobl Dduw yn yr Eglwys Fethodistaidd ac ymhell y tu hwnt i ffiniau'r eglwys. Un o'i hoff adnodau yw Effesiaid 2: 10 sydd yn dweud ein bod "wedi ein creu yng Nghrist Iesu i fywyd o weithredoedd da". Mae'r adnod hon yn ein hatgoffa ni i gyd, lleyg ac ordeiniedig, fod gennym ran i'w chwarae yng nghynllun iachawdwriaeth Duw ar gyfer ei fyd. Mae popeth wnawn ni yn enw Iesu er mwyn helpu i ddod â chymod ac iachâd i fyd Duw yn bwysig. Yn wir – a dyma'r peth mwyaf rhyfeddol efallai – mae'n bwysig nid yn unig ar gyfer heddiw, wrth inni wynebu'r llanast a wnaethom o'r byd, ond ar gyfer tragwyddoldeb cyfan. Mae'r hyn rydym yn ei wneud yn enw Iesu yn golygu dim llai na chwarae ein rhan wrth greu y nef newydd a'r ddaear newydd. Felly, fel y mae Andrew ar dân i bwysleisio, mae'r eglwys yn bwysig!

Yn y Groeg gwreiddiol, y gair sydd yn cael ei gyfieithu'n "gwaith" yn Effesiaid 2: 10 yw *poiema*, sy'n golygu rhywbeth tebyg i gelfyddydwaith neu hyd yn oed gampwaith. Mae'n golygu, yn wir, fod pobl Fethodistaidd Cymru yn gampwaith! Pan fyddwn yn gweithio ochr yn ochr â dilynwyr eraill i Iesu, er mwyn cyflawni'r gwaith da y mae Duw yn ein galluogi i'w wneud, a ninnau'n anturio ymlaen fel disgyblion, yn gwbl ymroddedig a diwyro, yna yn ddigamsyniol mae'r eglwys yn parhau i fod yn bwysig.

Yng ngwasanaeth croeso Andrew, dywedodd beth oedd ar ei galon. Er gwaethaf yr heriau y byddwn ni i gyd yn eu hwynebu fel pobl Fethodistaidd Cymru, mae arno eisiau inni barhau i wrthod gollwng gafael yn ein gobaith, gyda hyder yng ngallu Iesu i drawsnewid bywydau. Yn sicr fe welodd Andrew nerth trawsnewidiol yr Ysbryd trwy gydol ei fywyd ac mae'n hollol grediniol y gallwn ni i gyd barhau i weld hynny trwy fywyd ein heglwysi ym mhob rhan o Synod Cymru Wales. Mae'n edrych ymlaen yn fawr at gydweithio â Jennie a phawb o dîm y Dalaith, Arolygyddion y Cylchdeithiau a'r eglwysi i gyd wrth inni geisio parhau i rannu newyddion da Iesu Grist drwy ein bywydau.




**Gwyliedydd**

**CYFNODOLYN CYMRAEG YR EGLWYS FETHODISTAIDD**

Sefydlwyd 1877
– Cyfres Newydd 1987

**RHIF 244**
**HYDREF – TACHWEDD 2023**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Cylchdaith Cymru"

***SYLWER AR Y NEWID YN ENW'R CYFRIF, OS GWELWCH YN DDA***

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

**DYDDIAD CAU**
8 TACHWEDD 2023

Llun y clawr gan Nicholas Han

Dyluniwyd gan Ffrwd Cyfyngedig
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa




## Diolch

**Gwerthfawrogwn yn fawr y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyliedydd.**

| | |
|---|---|
| Capel Moriah, Cymdu | £90-00 |
| Eira Owain, Caernarfon, er cof am Owain. | £30-00 |
| Dienw | £50-00 |
| Capel Ebeneser, Treuddyn | £20-00 |
| Dienw | £50-00 |
| Ardal Gwynedd a Môn | £500-00 |
| Cyfanswm | £740-00 |

## Gweithredu Dros Blant

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y Gwyliedydd:

| | |
|---|---|
| Ebeneser, Treuddyn | £ 20.00 |
| Salem, Pentre Helygain | £ 40.00 |
| Margaret Morgan | £ 35.00 |
| Horeb, Croesoswallt | £100.00 |
| Ardal Gwynedd a Môn | £200.00 |

Anfonwyd y swm o £395.00 ymlaen yn enw Cylchdaith Cymru.

Pleser o'r mwyaf yw cael eich hysbysu fod yr Apêl Anrhegion Nadolig bellach wedi ei lawnsio. Gweler y manylion yn y rhifyn hwn.

Gyda diolch am bob cyfraniad ac am eich cefnogaeth.
Marc a Margaret
Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden,
Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF
☎ 01978 756717
cwrteden@gmail.com



O.N. Gair i'ch atgoffa fod sieciau i'w gwneud yn daladwy i "Gweithredu dros Blant" neu "Action for Children" – diolch.



Dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i William H. Owen. Diolch o galon, William, am eich parodrwydd i ysgrifennu i'r Gwyliedydd dros y blynyddoedd. Edrychwn ymlaen at ddarllen rhagor o sylwadau craff yn y man, am yr holl bethau ddaw i'ch sylw 'wrth fynd heibio'.

# Cloddio am aur

*gan Prydwen Elfed-Owens*



Onid oedden nhw'n ddyddiau da ymysg y beirdd a'r cantorion a'r enwogion o fri yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan eleni? Yno yng nghanol y bwrlwm **cefais dalpiau o aur** heb gloddio'n fwriadol amdanyn nhw – sef **tri dewin geiriau**, gwahanol eu diléit ond â'r **un neges.** Neges glir, gyfredol sy'n taro deg i mi!

Byddant ill tri – yr Archdderwydd etholedig, Mererid Hopwood; yr 'eicon cenedlaethol' Hywel Gwynfryn a'r 'addysgwr, dawnswraig a mam' Nerys Defis – yn derbyn **poster Malwan Bach.**

Dyma eiriau Mererid Hopwood mewn cyfweliad ar *Newyddion Saith* a ddarlledwyd o Faes yr Eisteddfod ar 10 Awst:

> *Fe wnaf fy ngorau glas i wasanaethu'r Orsedd, yr Eisteddfod a Chymru. Mae'r Maen Llog yn llwyfan. Gobeithio y bydd gen i ddoethineb i ddweud pethau call.*
>
> *Mae pob ymchwil yn profi, os yw iaith (neu unrhyw beth arall) i ffynnu, mae angen llefydd diogel pan fo dan fygythiad. Mae'r Eisteddfod a'i holl weithgareddau yn hollbwysig wrth gynnig man diogel i'r iaith Gymraeg.*
>
> *Rwy'n croesawu unrhyw draddodiad sy'n ddigon hirben i sylweddoli bod angen edrych ar bethau. Oherwydd 'dyn ni ddim isio traddodiad sydd wedi'i biclo. Nid mewn pot jam nac â'r winwns mân mae traddodiad i fod i fyw.*
>
> ***Oni bai'n bod ni'n newid, dydyn ni ddim yn byw.***
>
> *Ac os yw hi i fyw, mae'n rhaid hefyd altro a newid a chadw'r pethau gorau ac edrych am gyfleoedd i ddatblygu ar bob gafael.*

Dyma sylwadau Hywel Gwynfryn, a glywsom yn ystod ei sgwrs â Ffion Dafydd yn y Babell Lên, 8 Awst:

> *Mae'n bwysig fod pethau'n esblygu.*
>
> *Mae'r Eisteddfod ma yn newid ac rwy'n siŵr fod pobl yn y gynulleidfa fan hon sy'n dweud, 'Ia, ond dydi o ddim run fath, a chawn ni ddim cymaint o gystadlu.'*
>
> *Mi **fydd** yma gystadlu ac mi **fydd** yma newidiadau. Maen nhw'n digwydd rŵan ac maen nhw wedi **BOD** yn digwydd dros y blynyddoedd diwethaf.*
>
> *Mae'n **bwysig** bod hynny'n digwydd fel bod yr Eisteddfod drwy hynny'n denu'r genhedlaeth nesaf i gario mlaen.*
>
> ***Fydd** hi ddim yr un fath, ond fe fyddwn ni wedi denu'r gynulleidfa oherwydd ein bod ni wedi medru newid a mynd hefo'r amser.*
>
> *A rhaid i ninnau, Radio Cymru, fel gwasanaeth, adlewyrchu'r newid hwnnw. Oherwydd partneriaeth ydy'r Eisteddfod hefo'r BBC.*

Dyma ddyfyniad allan o erthygl Nerys yn '*Dawns*' cylchgrawn blynyddol Cymdeithas Ddawns Werin:

> *All pobl ddim dawnsio os nad oes **cyfleoedd** iddynt. Dim ond un math o gyfle yw cael grŵp lleol i ymarfer yn wythnosol. Pan mae'r niferoedd yn ddiflas o fach, byddwn yn trafod a threfnu gweithgareddau i ddangos cymaint o hwyl sydd i'w gael, a bod dim rhaid i bopeth fod yn gywir a pherffaith fel mae'n ymddangos wrth wylio'r cystadlaethau ar y teledu.*
>
> *Rhaid wrth **unigolion** i wneud y gwaith caib a rhaw. Mae dylanwad un person yn medru ymestyn ymhell.*
>
> *Ni all newid a datblygiad ddigwydd os nad ydyn ni'n **addasu.** Gall aelodaeth newydd newid deinameg a ffocws y grŵp. Byddwn yn clywed am sefydliadau (capeli, corau meibion, canghennau sefydliadau i fenywod ayb), sy'n edliw fod yr aelodaeth yn heneiddio ond, ar yr un pryd, pan ddaw pobl newydd a syniadau newydd, maent yn ofid i gyd ac yn dweud 'Nid fel yna ry'n ni'n arfer gwneud pethau' ac 'O na, allwn ni ddim gwneud hynny, fel hyn ni'n arfer gwneud.*
>
> *Yn Eisteddfod yr Urdd eleni roedd hi'n wych gweld ieuenctid o bob rhan o Gymru yn mwynhau dawnsio, cyfeilio a hyfforddi dawnsio gwerin. Allwn ni ond annog ac adeiladu ar hynny.*

Goroesi neu farw, dyna'r dewis medd y Parchg Ddr Alun Tudur, gweinidog Ebeneser, eglwys fyrlymus ddiadeilad ar gyrion dinas Caerdydd. Mae Alun yn erfyn arnom i sylweddoli pa mor hanfodol yw meithrin Cristionogion ifanc drwy eu harwain i ymgyfarwyddo â'r Beibl. Mae hefyd yn argymell mentora plant ac ieuenctid i weddïo'n bersonol a chyhoeddus a chymryd at gyfrifoldebau yng ngwaith yr eglwys ac i arwain addoliad.

Yn ôl at y triawd: mae Nerys yn gwbl hyderus fod dylanwad **un person** yn gallu bod yn bellgyrhaeddol. Tra bo Mererid yn pwysleisio'r angen am **fan diogel** pan fo bygythiad. Ar y llaw arall, siars Hywel Gwynfryn yw i ni **newid a symud hefo'r amser** i ddenu olynyddion.


Yna, ym Mhabell Cytûn clywyd geiriau arwyddocaol eraill o enau'r Pastor Dele o Nigeria wrth iddo ymateb i groeso'r Parchg Aled Davies iddo ef a'i wraig a'i blant i faes yr Eisteddfod Genedlaethol: '***God bless each one of us real good***'.

Ie, a rhoi i ni nerth i wneud ein rhan fel bo eraill drwom ni yn adnabod cariad Duw.



# AR GYFER PAWB SY'N DYSGU CYMRAEG

gan **Angharad Tomos**




Mae yn dymor newydd ers Medi ac mae plant yn **mynd yn ôl** i'r ysgol. Mae rhai plant yn mynd am y tro cyntaf. Ond **maent wedi bod yn dysgu ers pan oeddent** yn fabis bach. Bydd y plant yn yr ysgol **tan y byddant** yn 16 oed. Wedi gadael ysgol, **ni fydd plant** yn stopio dysgu. Mae pobl yn dysgu **ar hyd eu bywydau**.

Dyna ydi dysgu Cymraeg. **Un tant** arall ar ein telyn. Mae plant a phobl yn dysgu pob math o bethau. **Nid oes neb** yn stopio dysgu. Mae dysgu iaith yn daith dda, yn llawn **heriau,** yn llawn syndod, yn llawn dagrau a chwerthin. Weithiau rydym yn cerdded yn braf, weithiau rydym yn rhedeg am dipyn, weithiau rydym yn **baglu** ac yn disgyn.

Fel bywyd y Cristion, nid yw dysgu iaith yn **hawdd**, ond mae yn dod yn **haws** bob wythnos. Y peth pwysig – fel bywyd y Cristion – yw peidio **rhoi'r gorau** iddi. Peidio colli'r ffydd. Pob hwyl i bawb ar y daith.

mynd yn ôl – return
maent wedi bod yn dysgu – they have been learning
ers pan oeddent – since they were
tan y byddant – until they will be
ni fydd plant ...– children will not be..
ar hyd eu bywydau – all through their lives
un tant – one string (musical)
nid oes neb – nobody is..
heriau – challenges
baglu – to trip
hawdd – easy
haws – easier
rhoi'r gorau – give up


# APÊL CASGLU ANRHEGION



**Mae'r Nadolig ar y ffordd. Ydych chi am helpu Siôn Corn?**

Beth am brynu anrheg(ion) ychwanegol, pan fyddwch allan yn siopa, i blentyn/person ifanc (o 0 i 25 oed) na fydd efallai yn cael anrheg unrhyw adeg arall o'r flwyddyn.

*Mae Gweithredu dros Blant* yn rhedeg sawl prosiect ac ar adeg y Nadolig mae'n gyfle i roi anrheg i'r plant/pobl ifanc.

**Dyma enghraifft o bethau y gellir eu rhoi:**

- Gemau Bwrdd – pob oedran
- Jigsôs – pob oedran
- Llyfrau Lliwio
- Deunydd Lliwio
- Llyfrau
- "Selection boxes"
- Nwyddau ymolchi – i bobl ifanc
- Cardiau Rhodd (Gift Cards) @£5

*Gofynnir, yn garedig, i chi beidio â lapio'r anrhegion*

Am fwy o fanylion cysylltwch â'r:
Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan
Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF
01978 756717 cwrteden@gmail.com

Action for Children Gweithredu dros Blant

Y DYDDIAD OLAF I'W DERBYN FYDD
DYDD SUL 3 RHAGFYR

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

## *Salem, Rhyd y Foel*

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymuniadau gorau i'r plant a'r ieuenctid wrth iddynt gychwyn tymor newydd cyffrous ar eu taith addysgol. Rhai yn dechrau yn yr ysgol, rhai yn symud i ysgolion uwchradd ac eraill yn gadael cartref am y tro cyntaf i ddilyn cyrsiau mewn coleg neu brifysgol. Pob llwyddiant a hapusrwydd iddynt oll.

**COFION**
Mae nifer o'n haelodau wedi bod yn dioddef gyda phroblemau iechyd yn ddiweddar a dymunwn adferiad llwyr a buan iddynt.
**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE

## *Ardal Bathafarn*

**DYMUNIADAU GORAU**
Da deall fod Dilys Jones, Bathafarn ac Enid Edwards, Glyndyfrdwy yn gwella ar ôl cael triniaeth yn yr ysbyty, a hefyd fod Hywel Edwards yn well yn dilyn anffawd. Meddwl amdanoch.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau cynnes iawn i Mali Tegan Beech sydd wedi ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Economeg o Brifysgol Lerpwl.




**SULIAU UNDEBOL**
Hyfryd oedd cael dod at ein gilydd fel eglwysi tref Rhuthun, i Heol y Parc lle cynhaliwyd oedfa dan ofal Bathafarn. Cafwyd gair o groeso gan Elizabeth; y cyfeilydd oedd Rhian; a chroesawyd pawb yn y cyntedd gan Rhodri. Y Parchedig Dilys (Alec) Jones oedd y cennad a chafwyd neges bwrpasol ganddi. Mae gennym atgofion braf iawn am Dilys a'i diweddar briod y Parchedig Alec Jones pan oedd ef yn Arolygydd ar hen Gylchdaith Rhuthun a Chorwen rhwng 1975 a 1980. Bu'r ddau yn hynod o weithgar a ffyddlon mewn cyfnod cyffrous. Mae ein diolch yn fawr iawn i Hazel ac aelodau Heol y Parc am eu caredigrwydd yn cynnig yr addoldy i ni oherwydd sefyllfa adeilad Bathafarn ar hyn o bryd. Diolch i'n haelodau am eu teyrngarwch ac edrychwn ymlaen at weld pawb yn Llys Awelon lle cynhelir Gwasanaeth Cymun yn fuan.

**EISTEDDFOD LLŶN AC EIFIONYDD**
Braf oedd gweld bwrlwm ym mhabell Cytûn. Roedd y paneidiau a'r cacennau yn flasus iawn! Diolch yn fawr i bawb am eu caredigrwydd. Roedd yn Eisteddfod gartrefol iawn ac, yng ngeiriau Tudur Owen, yn "Eisteddfod hyderus". Ymfalchïwn bob amser yn nhalentau'r ifanc dawnus a diolchwn am yr holl waith caled gan bobl o bob oed yn sgil y blynydde, yn yr ardal hyfryd hon.
**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

## *Pendref, Dinbych*

**OEDFAON YM MHENDREF AC ADDOLI UNDEBOL**
Dyma ni ar ddechrau blwyddyn gyfundebol arall yn hanes capel hanesyddol Pendref – mae'n braf meddwl ein bod ni yma o hyd.

Yn ystod mis Gorffennaf cawsom oedfaon bendithiol dan ofal Royce Warner, Dr Prydwen Elfed Owens, yr Hybarch Bernard Thomas a'n gweinidog y Parchedig Marc Morgan. Cawsom hefyd oedfa dan ofal Hywel Evans ac Elfed Evans. Blaenor mis Gorffennaf oedd Elfed Evans gyda Vera Savage yn cyfeilio a Gwyn Williams yn arwain y canu – diolch i'r tri am eu gwaith.

Fel arfer yn ystod mis Awst cynhaliwyd oedfaon undebol yn nhref Dinbych gyda gwasanaethau yn y Capel Mawr, Capel Lôn Swan, Capel Unedig y Fron a'r Brwcws ac yma yng nghapel Pendref pan oedd yr oedfa dan ofal ein gweinidog y Parchedig Marc Morgan.

Anfonwn ein dymuniadau gorau at ein holl aelodau sydd am wahanol resymau yn methu â bod gyda ni.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau mawr i un o'n haelodau sef Dr Lliwen Angharad Jones sydd newydd ei phenodi'n Feddyg Ymgynghorol yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae hi'n arbenigo mewn tri maes – Meddygaeth Aciwt, Meddygaeth Gyffredinol a Strôc. Mae Lliwen yn ferch i Siân a Cledwyn Jones ac yn wyres i'r diweddar Barchedig Cledwyn Parry ac Eunice Parry a hefyd i'r diweddar Elwy a Catrin Lloyd Jones oedd yn aelodau ffyddlon yng Nghapel Wesle Cerrigydrudion.
**GOHEBYDD .** MARY JONES





## *Ebeneser, Dolgellau*

**GWASANAETHAU**
Yn ystod tymor yr haf roedd hi'n braf croesawu nifer o ymwelwyr i'n plith, gan gynnwys teuluoedd yn perthyn i'n haelodau.

Un bore Sul ym mis Awst, er mwyn dathlu gwyliau'r ysgol gyda Nesta ac Efin, cawsom oedfa yn canolbwyntio ar yr anghenrheidiau os ydym am fentro i gerdded y mynyddoedd. Roedd y bag yn llawn gan gynnwys y ffôn symudol, chwiban, cwmpawd, mapiau, golau, dillad cynnes, dillad ar gyfer y glaw, bwyd, dŵr, eli haul, plasters, ffyn cerdded, a siocled er mwyn ein hatgyfnerthu os ydy'r egni'n mynd yn isel! Cawsom ysbaid i fwyta'r siocled os oedd angen, a phleser mawr yn dangos ar wynebau'r plant! Ochr yn ochr â hyn,



aethom ar daith trwy fywyd yn cynnwys darlleniadau o'r Ysgrythur, yn cymharu o ble y daw y pethau i'n cynnal ar hyd y daith, oherwydd rydym i gyd yn wynebu 'mynyddoedd i'w dringo' ac yn chwilio am nerth a chymorth.

**DATHLU PEN-BLWYDD ARBENNIG**
Bu dathlu mawr ym Mhenbrynglas wrth i Hugh Humphreys ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed. Llongyfarchiadau iddo. Pleser oedd cael cwmni Eleanor, ei ferch sy'n byw yn Awstralia, yn y capel gyda ni am rai Suliau. Hugh sy'n meithrin y blodau ar gyfer eu plannu yng ngardd y capel; diolch yn fawr iddo ac i'r lleill sy'n gofalu am yr ardd.

**COFION**
Erbyn hyn mae Mrs Mary Davies wedi ymgartrefu yng nghartref y Bay yn Nhywyn. Anfonwn ein cofion ati.
**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE



## *Ebeneser, Ystumtuen*

**ADDOLI YN YSTUMTUEN**
Mae'r oedfaon yn dal i gael eu cynnal yn y llecyn hyfryd yma a chriw ffyddlon yn dal i gynnau'r fflam. Cawsom wasanaeth Mawl y Pasg gyda'r Côr Meibion lleol yn ein swyno a chynulleidfa luosog yn mwynhau ac yn cymdeithasu dros luniaeth ar ôl y gwasanaeth. Yna daeth y Parchedig Philip Barnett yr holl ffordd o Swydd Efrog a braf oedd ei weld wedi gwella ar ôl ei lawdriniaeth. Yn ystod y gwasanaeth derbyniwyd pedwar aelod newydd sef Huw, Iola a'u meibion ifanc Hedd a Cynan. Roedd yn dda gweld Mrs Catherine Barnett yn y gwasanaeth hefyd. Braf wedi hynny oedd cael oedfa dan arweiniad y Parchedig Dilys Jones o'r Amwythig. Roeddem hefyd yn falch iawn o groesawu'r Parchedig Jennie Hurd atom. Cawsom wasanaeth hyfryd dan ei harweiniad i dderbyn dau aelod arall sef Meinir a Michael. Cynhaliwyd ein Cwrdd Mawr yn ddiweddar pan ddaeth y Parchedig Kevin Davies, Penarth atom. Daeth cynulleidfa luosog ynghyd i addoli a braf oedd croesawu rhai ymwelwyr atom.
**GOHEBYDD .** GERAINT ROBERTS

## *Bethel, Prestatyn*

**BLWYDDYN NEWYDD**
Dymuniadau gorau i bawb ar ddechrau blwyddyn gyfundebol newydd. Bydded i ni chwilio am ddulliau newydd i fod yn ddisgyblion da i Grist a derbyn y sialens o ehangu ei Eglwys.


**YSGOL SUL**
Mae'r Ysgol Sul wedi ailddechrau ar ôl gwyliau'r haf a phresenoldeb y plant a'u rhieni yn llonni ein calonnau unwaith eto. Dymunwn yn dda i bob un ohonynt ar ddechrau tymor newydd yn yr ysgol.

**PANED A SGWRS**
Mae Paned a Sgwrs bob bore Mercher yn parhau i fod yn boblogaidd iawn. Diolch am bob cymorth. Anfonwyd arian at ddwy elusen leol sef Tŷ Gobaith a Hosbis Sant Cyndeyrn, o gronfa Paned a Sgwrs.

**Y CLEIFION**
Anfonwn ein cofion at ein holl aelodau sydd yn methu mynychu'r oedfaon oherwydd gwaeledd. Rydym yn arbennig o falch o glywed fod Catrin Purser yn gwella ar ôl ei llawdriniaeth.

**DYMUNIADAU GORAU**
Llongyfarchiadau mawr i Geraint Rowe ar ei swydd newydd fel pennaeth Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd. Pob dymuniad da iddo ar gyfer y dyfodol.

**DERBYN AELOD NEWYDD**
Cawsom y pleser o dderbyn Mrs Einir Hopkins yn aelod newydd ym mis Gorffennaf. Croesawyd hi gan ein bugail, y Parchedig Brian Huw Jones.




Lili

**ENNILL GWOBRAU**
Llongyfarchiadau i Carys, Alys, Bethan a Lili ar basio eu harholiadau dawnsio gydag anrhydedd. Maent wedi dysgu fod gwaith caled a dyfalbarhad yn dod â llwyddiant. Enillodd Carys a Bethan wobr y 'Deuawd Mwyaf Deinamig' yn yr Ysgol Ddawnsio, am ddangos agwedd dda, brwdfrydedd ac ymdrech yn eu gwaith. Mae'r ddwy wedi bod yn mynychu Capel Bethel ers yn fabanod bach ac yn ffrindiau da. Mawr hyderwn y byddant yn 'ddeuawd deinamig' yn helpu i redeg y Capel un diwrnod.
**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES

# Bathafarn Bach

*Cylchgrawn Hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru | Rhif 12 – Hydref 2023*


## CASGLIAD Y WERIN

**https://www.casgliadywerin.cymru/**

Sefydlwyd Casgliad y Werin yn 2010 dan nawdd Llywodraeth Cymru gyda chymorth Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac eraill. Y bwriad yw dathlu diwylliant a threftadaeth ein gwlad a chadw cofnod o'n hanes fel cenedl. Ers talwm wrth gwrs mater i haneswyr 'swyddogol' yn unig i bob pwrpas fyddai croniclo hanes, nid pobl gyffredin. Erbyn hyn fe sylweddolir fwyfwy fod hanes yn perthyn i bawb. Yn wir, ei fod yn debyg i jig-so – gyda darnau bach ohono yn ein dwylo ni i gyd! Mae'n hollbwysig nad yw'r darnau'n cael eu colli.

Mae'r cofnodion yng Nghasgliad y Werin yn cynnwys ffotograffau, dogfennau, recordiadau sain a fideo a gadwyd gan bobl ym mhob cwr o'r wlad ac sy'n ymwneud â phob math o weithgareddau. Rhan bwysig iawn o hanes Cymru wrth gwrs – fel mae ein tirwedd yn tystio – yw'r capeli. Yn arbennig, yng nghyd-destun ein Cymdeithas Hanes ni fel Methodistiaid, mae llawer iawn o gofnodion o weithgareddau capeli yn sicr yn bodoli ar ffurf ffotograffau (a ffurfiau eraill, o bosib). Mae angen inni sicrhau na fydd y rhain yn mynd i ddifancoll.

Felly, beth amdani? Wnewch chi chwilio yn eich cartref a'ch capel am luniau diddorol sy'n olrhain hanes y capeli dros y blynyddoedd? Lluniau'r capel ei hun, oddi mewn ac oddi allan, lluniau gweinidogion, blaenoriaid, arweinyddion canu, corau, swyddogion, dosbarthiadau Ysgol Sul, a lluniau pob math o weithgareddau fel cwmni drama neu ambell de parti.

Yna, wrth inni gasglu'r holl ddeunydd, y bwriad yw bod



popeth yn cael ei ddiogelu ar wefan Casgliad y Werin dan bennawd 'Yr Eglwys Fethodistaidd'. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Fs Menna Evans, Archifydd y Synod ac aelod o'r Gymdeithas hon, sydd hefyd yn gweithio'n llawn amser yn y Llyfrgell Genedlaethol, oherwydd mae Menna wedi cytuno i dderbyn yr holl luniau a'u huwchlwytho.


Felly, os gwelwch yn dda, anfonwch air ac anfonwch luniau "Wesleaidd" ynghyd â manylion amdanynt, at

**Fs Menna Evans, Hyfrydle, Ffordd Ddewi, Aberystwyth SY23 1EU**
**mennahevans@gmail.com**

Os am fwy o wybodaeth am y prosiect yma, cysylltwch â Mr Robin Jones, Llywydd y Gymdeithas Hanes (mae ei fanylion i'w cael ar dudalen 3)



## DARLITH Y GYMDEITHAS HANES





Yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd eleni, daeth llawer o aelodau'r Gymdeithas ac eraill ynghyd i wrando darlith gan y Parchedig Aled Edwards ar 'Fywyd a Gwaith y Parchedig Griffith Thomas Roberts, ysgolhaig a gweinidog Wesleaidd'. Croesawyd pawb yn gynnes a diolchwyd i'r darlithydd gan Robin Jones, Llywydd y Gymdeithas. Roedd clywed Aled yn sôn am ddoniau a chyfraniad y Parchedig G. T. Roberts yn gyfareddol. Nid yn unig cawsom hanes y gŵr duwiol a chymwynasgar hwnnw o Gongl y Meinciau ond roedd y ddarlith hefyd yn fodd i werthfawrogi'n llawnach arwyddocâd ei waith tawel ef ac eraill wrth osod seiliau i Gymru ddatganoledig ein dyddiau ni.

Mae'n bleser gennym gyhoeddi rhan gyntaf y ddarlith yn y rhifyn hwn ac edrychwn ymlaen at gyhoeddi'r ail ran yn y *Gwyliedydd* nesaf gobeithio.

# GWARCHOD Y GAIR

## *Cofio'r Parchedig Griffith Thomas Roberts*
## *gan Y Canon Aled Edwards*

Pleser o'r mwyaf eleni fu cynnig darlith yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ar fywyd a chyfraniad aruthrol un o gymeriadau anwylaf ardal Botwnnog, y Parchedig Griffith Thomas Roberts, Congl y Meinciau. Fe wnes hynny dan wahoddiad Pwyllgor Cymdeithas Hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru. Cytunais wedi hynny i gyfrannu dwy erthygl ar gyfer y *Gwyliedydd*. Dyma'r gyntaf ohonyn nhw, yn hoelio sylw ar fy atgofion personol ohono tra'n weinidog bro yn ardal Botwnnog.

Yn blygeiniol ar Ddydd Gŵyl Dewi 1988, fe gerddais i lawr i'r Post ym Motwnnog gan ofyn ffafr. Cyhoeddwyd stamp arbennig y diwrnod hwnnw yn coffáu cyfraniad yr Esgob William Morgan. Gosodais y stamp yn ofalus ar un o dudalennau blaen y Beibl Cymraeg Newydd a gafodd ei gyhoeddi yn yr un cyfnod a gofynnais i'r post feistr clên i'w ddyddio. Ar ddiwedd y Rhagair i'r cyfieithiad newydd hwnnw o'r Beibl fe gafwyd trindod o enwau. Pob un ohonyn nhw yn gewri academaidd, yn genedlaetholwyr o'r radd flaenaf ac yn garedigion pennaf y ffydd Gristnogol a'r iaith Gymraeg: yr Archesgob G.O. Williams o'r Eglwys yng Nghymru a'r Parchedigion Griffith Thomas Roberts ac Owen E Evans o'r Eglwys Fethodistaidd. Hwy oedd Cadeirydd, Ysgrifennydd a Chyfarwyddwr y Cydbwyllgor a ddygodd y Beibl Cymraeg Newydd i fodolaeth.

Roeddwn yn adnabod y tri. Cefais fy nghonffyrmio a'm hordeinio gan 'G.O.', bûm ar sawl pwyllgor ecwmenaidd gydag 'Owie' ac roedd 'G.T.R.' wedi ei fagu ym Motwnnog ac yn byw yno yng Nghongl y Meinciau, nid nepell o'r Post. Nid mynegiant o unrhyw amarch oedd talfyrru enwau'r cewri hyn, ond arwydd o agosatrwydd mewn cyfnod arbennig yn hanes Cymru. Felly, ar lafar gwlad eglwysig, roedd y tri yn cael eu hadnabod. Roedd 'G.O.' eisoes wedi creu enw iddo'i hun yn 1980 fel un o'r tri gŵr doeth a aeth i weld William Whitelaw ynghylch sefydlu S4C. Cafodd 'Owie' ei gydnabod fel arweinydd o argyhoeddiad yn dilyn ei safiad eofn fel gwrthwynebydd cydwybodol ac oherwydd ei ran flaenllaw yng Nghymdeithas y Cymod. 'G.T.R.' oedd y mwyaf diymhongar a thawel ei anian o'r tri. Wedi ei farwolaeth ym mis Mai 1991, fe gladdwyd ei weddillion ym mynwent Llandegwning wedi angladd dawel. Prin fu'r sylw i'w farwolaeth ar y cyfryngau Cymraeg. Eto i gyd, roedd ei gyfraniad i'r genedl yn enfawr.

Cafodd Griffith Thomas Roberts ei eni yn nhŷ capel y Tyddyn ar gwr Y Rhiw yn Llŷn yn 1912. Yn 1923, symudodd y teulu i fyw yng Nghongl y Meinciau, Botwnnog. Cafodd ei addysg yn ysgolion Bryncroes a Phont y Gof, ac yna yn Ysgol Ramadeg Botwnnog. Yn 1933, cafodd radd B.A. gydag anrhydedd yn y Dosbarth Cyntaf yn y Gymraeg yn ystod cyfnod fel myfyriwr yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor. Er iddo grwydro i Leeds fel myfyriwr yn 1935 a graddio'n B.D. (Llundain) yn 1938, gweinidogaethu yng Nghymru wnaeth 'G.T.R.' Bu'n gweinidogaethu mewn bröydd amrywiol: Aberystwyth, Bangor, Tregarth, Porthmadog, Dolgellau a Biwmares cyn dychwelyd yn 1970 yn weinidog yng Nghylchdaith De Gwynedd (Pen Llŷn).

Un atgof sydd gen i ohono oedd fel dyn ei fro a oedd yn eithriadol o alluog yn arbennig wrth feistroli'r Gymraeg. Cefais sgwrs gofiadwy gyda 'G.T.R.' rhyw noson ynghylch treigladau. Cafwyd penderfyniad gan Gydbwyllgor y Beibl Cymraeg Newydd i beidio treiglo enwau personau. Ond, fe gafwyd eithriadau. Peth cyffredin yw treiglo rhai enwau fel Mair a Dafydd. Hefyd, pan fyddai peidio â threiglo yn cymylu'r ystyr weithiau. Gyda gwên garedig fe ddywedodd Griffith Thomas Roberts 'ar y cyfan, peth ffôl ydi treiglo Pedr a Phaul.' Yn y funud honno, fe ddysgodd wers i weinidog bro ifanc o ogwydd efengylaidd sut i osgoi atebion syml ac absoliwt. Fe lywiodd y funud honno fy ngweinidogaeth gyhoeddus ers hynny. Bu o gymorth aruthrol yn fy ngwaith ar ran Cytûn yn arbennig wrth sefydlu Cyngor Rhyng-ffydd Cymru. Fe wnaeth Duw ni i fod yn fwy nag un peth.

Fe anwyd 'G.T.R.' i fyd arall a lywiodd gyfran helaeth o'i weinidogaeth. Credai yn angerddol taw dymuniad pen yr Eglwys, Crist, oedd ar iddi fod yn un. Yn ei bennod hynod o werthfawr ar *Undeb Eglwysig yng Nghymru yn yr Ugeinfed Ganrif* yng nghyfrol goffa G.T. Roberts o dan olygyddiaeth annwyl Owen E. Evans, *Gwarchod y Gair* (Gwasg Gee, 1993), fe ddywed y diweddar Meirion Lloyd Davies hyn: 'Dywedir yn fynych fod pob mudiad a digwyddiad yn araf yn cyrraedd Cymru. Ni ellir dweud hynny am ecwmeniaeth.' Tynnodd Meirion Lloyd Davies sylw pellach i Griffith Thomas Roberts gael ei eni yn 1912 ddwy flynedd ar ôl Cynhadledd Genhadol Caeredin. Ystyrir y gynhadledd honno fel man cychwyn y mudiad ecwmenaidd cyfoes.

Fe wnaeth Griffith Thomas Roberts gydoesi â chyfnod y disgwyliadau a'r gobeithion ecwmenaidd a lifodd o Gaeredin. Safai G.O. Williams ac Owen E. Evans yn yr un traddodiad. Cofiaf gwestiynu G.O. Williams wedi fy ordeinio yn 1979, ai buddiol oedd galw'r ymrwymiad a gafwyd rhwng nifer o eglwysi Cymru yn 1975 yn Gyfamod? Ceir ystyr diwinyddol cryf i'r gair Cyfamod. Ger bron Duw, ni ellir ei dorri ar hap na heb oblygiad. Fe dreiddiodd ateb yr Archesgob yn ddyfn: 'Fe ddefnyddiwyd y gair Cyfamod gan taw hynny yn union roeddem yn ei olygu.' Dyna fi yn fy lle. Fe lywiodd y funud honno weddill fy ngweinidogaeth hefyd.

Byddai rhai yn tybio efallai taw methiant fu ymroddiad ecwmenaidd y drindod o arwyr eglwysig y sonnir amdanyn nhw yma. Ceir tinc o hynny yn y soned a ysgrifennodd Gwilym R. Tilsley i 'G.T.R.' wedi ei farwolaeth:

Treuliodd ei ddyddiau'n hau y dwyfol had,
Ac er na welai egin yn y tir
Mewn ffydd a gobaith credodd air y Tad
A bu i'w frodyr gwan yn gyfaill gwir.

Gallaf dystio'n bersonol iddo fod i mi yn gyfaill gwir wrth sefydlu gweinidogaeth bro Botwnnog. Diolchaf iddo am ei garedigrwydd clên a'i gefnogaeth hael. Nid wyf o'r farn na chafwyd egin yn y tir yn sgil gweinidogaeth hynod Griffith Thomas Roberts. Credaf i gynhaeaf da dyfu yn nhir Cymru oherwydd ei waith. Fe ymdrechaf yn fy ail erthygl i egluro paham yr wyf yn credu hynny.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### *Tabernacl, Llanfyllin*

**TE PRYNHAWN**
Ar brynhawn poeth iawn yn nechrau Medi cynhaliwyd te prynhawn yn Villa Norge, cartref Keith a Decia Blacker. Dan gysgod y coed treuliwyd prynhawn hamddenol yn sgwrsio dros baned ac ambell gacen. Llwyddwyd i gasglu £245 tuag at elusen 'Gweithredu dros blant'. Diolch am bob cefnogaeth.

**COFION**
Anfonwn ein cofion at Mr Robin Hughes sydd ddim wedi bod yn dda yn ddiweddar. Rydym hefyd yn meddwl am Mona, ei briod, yn ei phryder am Robin.

**DYMUNIADAU DA**
Dymunwn hwyl fawr i Olwen a Gwyn Jones (Soar) sydd yn mynd i ymweld â'u meibion a'u teuluoedd yn Awstralia a Seland Newydd. Mae'n siŵr bod cyffro mawr yn Hemisffer y De am weld Taid a Nain. Mwynhewch!

**BABAN NEWYDD**
Llongyfarchiadau i Mrs Enid Morris ar ddod yn hen nain unwaith eto. Ganed baban bach i Juliette, ei hwyres. Pob bendith arnoch fel teulu.
**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

### *Ardal Dyffryn Conwy*

**DYMUNIADAU GORAU**
Llongyfarchiadau i Llinos Garstang, goruchwylydd yr Ardal ac i Eirian Jones, ysgrifennydd yr Ardal, ar enedigaeth Evie Louise, merch fach i Amy ac Alex yn Beverley ger Hull. Ar yr un pryd cofiwn a chadwn yn ein gweddïau Llinos a phawb arall o'r Ardal nad yw eu hiechyd yn dda ar hyn o bryd neu sy'n wynebu triniaeth yn y misoedd sydd i ddod.

**HOREB A DISGWYLFA**
Ar nos Fawrth 18fed Gorffennaf cynhaliwyd Oedfa o Ddiolchgarwch am gapeli Horeb, Bae Colwyn a Disgwylfa, Penmaen. Er ei fod yn achlysur trist wrth ddirwyn yr achosion i ben, braf oedd medru diolch i Dduw am eu tystiolaeth ar hyd y blynyddoedd.

**ER COF ANNWYL**
Diwedd mis Awst bu farw Hanna Hall, Bryn Myfyr, Glan Conwy. Yn wreiddiol o'r Almaen, fe symudodd Hanna i Lerpwl yn ferch ifanc gyda'i theulu wrth iddynt ffoi'r rhyfel. Yn 1977 priododd â'i hail ŵr sef y Parchg Alfred Daemon Hall gan ymgartrefu yn yr 1980au, wedi ymddeoliad Daemon, yn Nyffryn Conwy. Yn ôl dymuniad y teulu cynhaliwyd angladd distaw yn Amlosgfa Bae Colwyn dan arweiniad y Parchg Marc Morgan, Arweinydd Ardal Dyffryn Conwy. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i dau fab.
**GOHEBYDD .** MARGARET MORGAN

### *Soar, Cwmnantyffyllon*

**DATHLIAD ARBENNIG**
Ar y trydydd o Fedi, prynhawn Sul hynod o braf, croesawodd ein gweinidog y Parchedig Gwyndaf Richards gynulleidfa ynghyd o bell ac agos i ddathlu pen-blwydd Capel Soar yn gant a hanner oed.

Ar ôl i'r gweinidog ddweud hanes yr amser cynnar, aeth yn ei flaen i groesawu'r efeilliaid enwog o Lanfyllin sef Tom a John Ellis – dau sy'n enedigol o'r ardal hon ac wedi eu magu yma. Cawsom anerchiad diddorol ac ambell hanesyn digrif yn gyrru llawer i chwerthin. Mae Tom a Mair a John a Pat bob amser yn barod i gefnogi'r capel hwn a oedd yn bwysig iawn pan oeddent yn tyfu i fyny. Yr organydd oedd Mrs Gwyneth Ellis ac roedd Mrs Gloria Griffiths yn cyfeilio ar yr organ i ferch leol sef Ellen Evans a ganodd unawd bendigedig. Gwledd o ganu a hanesion – ac roedd pawb yn barod am wledd o fwyd a drefnwyd gan ferched y capel a ffrindiau, yn festri capel y Tabernacl, Llanfyllin. Torrwyd y gacen dathlu gan Tom a John. Fe wnaeth pawb fwynhau hel atgofion pleserus ac edrych ar arddangosfa o luniau a hanes yr Ysgol Sul a'r dramâu a gynhyrchwyd.



Hoffai'r aelodau ddiolch i bawb am bob cefnogaeth a gafwyd mewn unrhyw ffordd. Roedd yr offrwm er budd Gweithredu dros Blant ac fe gasglwyd £330.
**GOHEBYDD .** GWYN JONES

### *Preswylfa, Cyffordd Llandudno*

**SULIAU UNDEBOL**
Yn ystod mis Awst cafwyd Suliau undebol bendithiol iawn, yn eglwysi Pensarn, Preswylfa a Chapel Coffa.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Llinos a Paul ar ddod yn nain a taid, ac i Eirian ar ddod yn hen nain i Evie Louise, merch fach Amy ac Alex. Bendith Duw ar y teulu bach.

**COFION**
Rydym yn cofio at y rhai sydd wedi bod mewn gwaeledd. Cofion at Mrs Eirwen Jones, sydd dros naw deg oed, ac at Llinos a Bethan sydd wedi gwella'n dda. Braf hefyd oedd cael gwasanaeth y Parchedig Philip Barnett yma ym Mhreswylfa ac yntau wedi gwella ar ôl ei waeledd.
**GOHEBYDD .** EIRIAN JONES



### *Ebeneser, Treuddyn*

**TE PRYNHAWN**
Cynhaliwyd Te Prynhawn llwyddiannus iawn er budd y capel ar ddydd Sadwrn, Medi 9fed yn Hafan Deg. Diolch yn fawr iawn i aelodau'r capel am baratoi a gwneud gwahanol gynnyrch tuag at y te a hefyd y stondinau amrywiol. Diolch yn fawr iawn hefyd i'r holl bentrefwyr a wnaeth droi allan i'n cefnogi.

**CYFARFOD PREGETHU**
Croesawyd y Parchedig Brian Evans yn bregethwr gwadd ar gyfer ein cyfarfod pregethu blynyddol ar ddydd Sul, Medi 10fed. Mwynhawyd gwasanaeth bendithiol.

**CLWB CAPEL EBENESER**
Ailddechreuodd y Clwb Capel ym mis Medi. Rydym yn falch iawn o weld y nifer sy'n mynychu yn cynyddu. Cynhelir y Clwb ar y Sul cyntaf ym mhob mis am 10 tan 11 y bore.

**DIOLCHGARWCH**
Cynhelir ein gwasanaeth diolchgarwch eleni ar ddydd Sul, Hydref 8fed am 6 yr hwyr. Edrychwn ymlaen at groesawu'r Diacon Lisa Rathbone a fydd yng ngofal y gwasanaeth. Estynnir croeso cynnes i bawb ymuno â ni.

**COFION GORAU**
Anfonwn ein dymuniadau a chofion gorau at yr aelodau hynny sydd ddim yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd a hefyd y rhai sydd yn disgwyl llawdriniaeth. Dymunwn lwyr iachâd i bob un ohonoch.
**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

### *Shiloh Newydd, Tregarth*



**ER COF ANNWYL**
Ar Fedi 4ydd bu farw un o flaenoriaid y capel sef Wynne Roberts, yng Nghartref Gofal Cerrig yr Afon yn y Felinheli. Roedd Wynne newydd ddathlu ei ben-blwydd yn 95 oed. Bu'n flaenor yma am ddeuddeg mlynedd ac yn ffyddlon iawn yn yr oedfaon gan gymryd rhan yn y gwasanaethau Trefniant Lleol yn rheolaidd tan ei waeledd.

Roedd yn briod â'r diweddar Megan ac yn dad i Paul Francis sydd newydd ddychwelyd i Seland Newydd wedi cyfnod o bron i chwe mis yng nghwmni ei dad. Anfonwn ein cydymdeimlad at Paul, ei ferch Yasmin a'r holl deulu. Bu'r angladd yn Shiloh Newydd ar ddydd Sadwrn, Medi 16 ac yn dilyn yn yr Amlosgfa ym Mangor.

**LLONGYFARCHIADAU**
Mor braf ydi clywed am lwyddiant ieuenctid fu'n gysylltiedig â'r Ysgol Sul. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Cerys sydd yn mynd ymlaen i Brifysgol Bangor ac i Siwnamis Efans sydd yn mynd i Brifysgol Caerdydd. Bydd Myfi Celyn a'i hefaill Nel Mai yn cychwyn ar gwrs blwyddyn yng Ngholeg Menai ym Mangor sef cwrs Sylfaen Celf. Pob hwyl iddynt hwythau. Llwyddodd Ifan Rhys yn ei arholiadau gradd mewn Technoleg Cerdd ym Mhrifysgol Salford a dymunwn y gorau iddo i'r dyfodol. Llongyfarchiadau i Gwenno Roberts, Caleb Efans ac Ela Jones hwythau ar eu llwyddiant yn y chweched dosbarth. Mor falch o glywed amdanoch i gyd.

**OEDFAON**
Croeso nôl i bawb wedi gwyliau'r haf. Braf iawn ydi dychwelyd i drefn a chael bendith yn yr oedfaon.

**DRWS AGORED**
Parhawyd i gyfarfod yn wythnosol drwy'r haf ac mor braf ydi cael croesawu ffrindiau ffyddlon sy'n dod atom o bentrefi cyfagos am sgwrs, cwmni a phaned. Mae'n bleser gweld pawb ohonoch. Diolch i bawb am bob cymorth.
**GOHEBYDD .**
GWENDA DAVIES

### *Jerwsalem, Wrecsam*





**PRIODAS AUR**
Llongyfarchiadau i Margaret a Roger Jones ar ddathlu eu priodas aur. Margaret yw ysgrifennydd yr eglwys, swydd y mae hi wedi ymgymryd â hi ers sawl blwyddyn bellach. Er mai aelodau ffyddlon yn Seion, Glyndyfrdwy oedd Margaret a'r teulu ar y pryd, yn Eglwys Seion, Llangollen y priodwyd hi a Roger gyda'r Parchedigion Trevor Humphreys, J. Roger Roberts ac Ivor Phillips yn cymryd rhan. Yn dilyn y gwasanaeth aethant ymlaen i Westy'r Chain Bridge, Llangollen am y wledd briodas. A dyma hefyd fu eu hanes 50 o flynyddoedd yn ddiweddarach. Fe agorwyd y capel gan Mrs Elizabeth Benjamin, ysgrifennydd presennol y capel, er mwyn i'r ddau ynghyd â'u teulu agos gael ymweld â Seion cyn mynd i'r 'Chain Bridge' unwaith eto am bryd i ddathlu. Pob bendith a hir oes i chi, Margaret a Roger.

**ER COF ANNWYL**
Gyda thristwch y cafwyd y newyddion ddiwedd mis Gorffennaf am farwolaeth Mr Gwynfryn Evans. Nid oedd Gwyn wedi bod yn hwylus ei iechyd yn ystod y misoedd diwethaf ond er hynny roedd yn sioc i ni i gyd yn Jerwsalem pan fu farw. Anodd iawn oedd meddwl fod Gwyn yn 94 oed; daliai i weithio'n gydwybodol hyd y diwedd, yn ei waith fel trysorydd y capel. Brodor o Gorwen oedd Gwyn ac er iddo ddal amryw o swyddi cofir ef yn bennaf fel heddwas. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Pentrebychan ar 8fed o Awst dal ofal ei weinidog, y Parchedig Marc Morgan. Cydymdeimlwn â Bronwen, ei wraig, Clifford a Brian, y meibion, a'r teulu oll.
**GOHEBYDD .** MARGARET MORGAN

# Defaid Eraill Sydd

### *gan Arwel Williams*



Bydd nifer fawr o ddarllenwyr y *Gwyliedydd* yn cofio'r diweddar Donald Soper, sef yr Arglwydd Soper – Gweinidog Wesle, Sosialydd a Heddychwr, ac un a wasanaethodd fel Llywydd Cynhadledd Fethodistaidd Prydain yn y pumdegau. Bydd sawl un ohonom, o bosib, yn gwybod amdano fel pregethwr awyr agored ar ei focs sebon yn Tower Hill a Hyde Park yn Llundain, gyda'r tyrfaoedd yn heidio i wrando arno, ac, ia, rhai yno hefyd i heclo a dadlau, ac yntau gyda'i feddwl miniog efo'r gallu i ymateb yn graff a chyda hiwmor.

Pan oeddwn yn Llundain am benwythnos ar ddechrau'r nawdegau bachais ar y cyfle i fynd i Speakers Corner yn Hyde Park i wrando ar y gŵr arbennig hwn y clywais gymaint o sôn amdano. Er fy mod yn amau a fyddai yno gan mai bore oer o Dachwedd ydoedd, yn pluo eira, a'r Arglwydd Soper erbyn hynny yn ei nawdegau. Ond ni chefais fy siomi; roedd yno, yn pregethu i dyrfa dda o bobl a chyn siarped ag unrhyw un hanner ei oed.

Daeth y penwythnos hwnnw i gof ryw fis yn ôl wrth i mi gerdded i fyny Stryd Llyn yma yng Nghaernarfon, a gweld, gyferbyn ag un o siopau'r stryd, ŵr ifanc yn ei dridegau hwyr ddywedwn i, ar ei focs sebon yn pregethu – rhywbeth na welir yn aml iawn. Yn wahanol i'r tyrfaoedd oedd yn gwrando ar Donald Soper, anwybyddu'r gŵr ifanc oedd siopwyr Stryd Llyn wrth iddynt fynd heibio heb hyd yn oed troi pen i sylwi arno.

Teimlwn ryw drueni dros y gŵr a phenderfynais agosáu a sefyll i wrando yn y gobaith, pe bai un person i weld yn gwrando, y byddai hynny o bosib yn tynnu eraill i wrando, ond ysywaeth nid felly y bu a dal i gerdded heibio wnaeth y dyrfa.

Es i at y gŵr a diolch iddo am fod yn barod i ledaenu'r Gair dan amgylchiadau anodd, gan ychwanegu, braidd yn nawddoglyd o bosib "iddo beidio digalonni oherwydd pwy a ŵyr pa fendith a dderbyniwyd gan ambell un wrth gerdded heibio er nad oeddent i weld yn cymryd sylw".

Dywedodd, er bod y diffyg gwrandawiad wedi ei boeni ar y dechrau, iddo wedyn atgoffa ei hun mae ei ddyletswydd ef oedd pregethu'r Gair, ac mai gwaith a mater i'r Ysbryd Glân oedd sut a pha fodd roedd y Gair yn cyffwrdd calonnau pobl.

Adroddodd ychydig o'i hanes gan esbonio fel roedd wedi byw trwy gyfnodau tywyll iawn, a'i fywyd wedi bod ar chwâl, ond bod goleuni'r Efengyl wedi trawsffurfio ei fywyd ac felly bod rheidrwydd arno i rannu'r gobaith a geir drwy Iesu Grist.

Dywed rhai fod pregethu awyr agored fel hyn yn rhywbeth a berthyn i'r oes o'r blaen, ac nad yw'n gweddu i'r oes sydd ohoni, ond eto onid oes dyletswydd i drosglwyddo'r Efengyl i rai nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad â Chapel nac Eglwys a hynny mewn gair yn ogystal â gweithred?

Roeddwn yn edmygu ei argyhoeddiad a'r rheidrwydd oedd yn gyrru'r gŵr ifanc, gan ofyn i mi fy hun, ai ansicrwydd yn yr hyn a



gredwn sydd y tu ôl i swildod ac ofn llawer ohonom i siarad am ein ffydd y tu allan i furiau capel?

Fel y nodais, es i sefyll wrth ymyl y gŵr ifanc gan fy mod yn teimlo trueni drosto, ond gadewais yn teimlo rhyw dosturi drosof fi fy hun.

***Yng nghân y ceiliog fe'n cyhuddir oll,***
    ***Mewn llawer man,***
***Ac ofn y farn gyhoeddus sy'n ein gwneud***
    ***Yn llwfr a gwan;***
***O deued nerthol gorwynt Calfarî***
***I ennyn fflam ein ffydd, a'n herio ni.***

Aled Lloyd Davies

# Y DDWY GYNULLEIDFA

### *gan Glyn Tomos*

Eistedd mewn oedfa bore Sul yn gwrando ar yr Offeiriad yn darllen gostegion priodas ddaru wneud i mi feddwl beth ydy sefyllfa gwasanaethau bedydd a phriodas yn ein haddoldai erbyn hyn.

Dwi'n deall bod nifer y rhai sydd yn priodi mewn eglwys neu gapel wedi gostwng dros y blynyddoedd ond mae'n galonogol gweld bod rhai yn dal i ddymuno gwneud eu llwon priodasol gerbron Duw. Does dim teimlad gwell na gweld cwpl hapus yng nghwmni eu teulu a'u ffrindiau ar ddiwrnod mor arbennig yn gwneud eu haddunedau i uno mewn priodas yn nhŷ Dduw. Mae'n achlysur arbennig iawn ac yn ddiwrnod i'w gofio a'i drysori am byth.

Gellir dweud yr un peth am wasanaethau bedydd. Mae bedydd yn achlysur arbennig i unrhyw deulu ac yn gyfle i groesawu'r plentyn i'r Eglwys, ac i'r rhieni a'r rhieni bedydd wneud addewid o flaen Duw i fagu'r plentyn yn y ffydd Gristnogol. Eto, fel mewn priodasau, dwi'n deall mai gostwng mae nifer y rhieni sydd yn dymuno i'w plant gael eu bedyddio erbyn hyn.

Yn y byd sydd ohoni mae'n rhyfeddod bod y ddau wasanaeth yn dal i apelio, wrth feddwl cyn lleied o bobol sydd yn mynychu eglwys neu gapel. Eithriad yw gweld y pâr ifanc yn bresennol yn yr Eglwys i wrando ar eu gostegion priodas yn cael eu darllen. I'r aelodau ffyddlon sydd yn bresennol ar foreau Sul i glywed y gostegion priodas yn cael eu darllen, ychydig os o gwbl mae rhywun yn ei wybod am y rhai sydd yn priodi nac ychwaith pa bryd y cynhelir yr achlysur arbennig. Ar un adeg fe fyddai yn arferiad i'r aelodau fod tu allan i'r Eglwys ar ddiwrnod y briodas i ddymuno yn dda i'r cwpl hapus.

Yn wahanol i'r gwasanaethau priodas nid yw gwasanaethau bedydd yn rhan o wasanaethau cyhoeddus erbyn hyn. Arferid cynnal y bedydd yng ngŵydd aelodau'r Eglwys ar foreau Sul fel bod cyfle i'r aelodau groesawu'r plentyn bach i'r Eglwys ac i ddangos cefnogaeth i'r rhieni a'r rhieni bedydd wrth iddynt wneud eu haddewidion i'w fagu o fewn y ffydd Gristnogol. O'r hyn a ddeallaf dewis y rhieni mewn nifer o achosion y dyddiau hyn yw cynnal gwasanaethau bedydd tu allan i'r gwasanaethau arferol ar y Sul.

Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym? A yw hyn yn gadarnhad pellach bod dau fath o Eglwys yn bodoli. Un ar gyfer yr aelodau ffyddlon sydd yn cynnal yr achos o Sul i Sul a'r llall ar gyfer rhai sydd yn dymuno gwneud defnydd o'r Eglwys ar gyfer digwyddiadau teuluol. Yr hyn sydd yn eironig am y sefyllfa yw bod yn rhaid i'r Eglwys wrth y ddwy gynulleidfa fel ei gilydd neu fel arall ni fyddai achos i'w gynnal a dim addoldai ar gael i gynnal y gwasanaethau pwysig hyn.

Diolch er hynny bod yna awydd yn parhau ac ymlyniad gan bobl o bob oed i ddod i dŷ Dduw ar adegau pwysig yn eu bywyd – bedydd, priodas ac angladd.



# O'R PEN YMA

### *gan Angharad Tomos*

Yn ddiweddar, dyma ddarganfod y Lôn Las. Dwi wedi byw yng nghyffiniau Caernarfon ar hyd fy oes, a chredwn fy mod yn adnabod yr ardal fel cefn fy llaw, yn fwy fyth wedi cyfnod y Clo. Gwnes y siwrne rhwng Caernarfon a Bangor filoedd o weithiau, felly tybiwn fy mod yn nabod y Lôn Las. Ond doeddwn i erioed wedi bod arni. Rhyw bnawn Sul braf ym mis Medi, dyma benderfynu ei throedio.

I'r rhai ohonoch sy'n anghyfarwydd â hi, lôn gul ar gyfer cerddwyr a beicwyr yw'r Lôn Las wedi ei seilio ar y trac trên rhwng Caernarfon a Bangor ac yn mynd drwy'r Felinheli. Doedden ni ddim yn rhy uchelgeisiol – o Gaernarfon i'r Felinheli ac yn ôl oedd ein taith ni, chydig dros awr o gerdded un ffordd. Ymddengys fod pawb arall yn y cyffiniau yn hen gybyddus â hi, achos roedd hi'n ddigon prysur y pnawn hwnnw.

Mae'n llwybr bendigedig gyda 'bwa'i tho plethedig' yn gysgod rhag yr haul. Rhyfeddu wnes i mod i'n nabod pob man, ond yn eu gweld o bersbectif gwahanol. Dyna gefnau'r tai ar Lôn Bangor, dyna Blas Brereton...dacw hen ffatri Ferodo ar fy ngwir! Yn gefndir i'r cyfan roedd y Fenai yn fendigedig las, a'r cychod hwylio yn peri i'r enaid ymlacio.

Mae arfordir Môn yn hudol ac yn edrych mor agos. Mae peth wmbredd o adar môr i'w gweld. Cawsom ein picnic ar garreg fechan, ond tasen ni wedi mynd ganllath ymhellach, byddem wedi dod at berllan gymunedol y Felinheli lle roedd mainc bwrpasol a bwrdd. Erbyn cyrraedd y pentref, roedd caffi Llofft yn cynnig paned a golygfa braf o'r Fenai. Ew, mi ddaru mi fwynhau'r daith.

Y cwestiwn inni ar y ffordd yn ôl oedd pam na wnaethom y daith ynghynt? Nid diffyg cyfle na pharodrwydd i gerdded ydoedd. Y prif reswm dros beidio troedio'r llwybr oedd meddwl ein bod yn gyfarwydd ag o, na fyddai dim newydd i'w weld.

A deud y gwir, mae hyn yn wir am ddarllen y Beibl. Teimlwn weithiau ein bod yn gyfarwydd efo llawer o'r penodau a'r hanesion, a'n bod wedi eu darllen a'u hastudio sawl tro – nad oes dim newydd ynddynt. Rydym o'r farn nad oes ganddynt ddim mwy i'w gynnig inni. Y gwir amdani yw fod rhywbeth newydd i'w ganfod bob tro, fel gyda llwybrau ein cynefin. Efallai mai dull arall o'u hastudio sydd ei angen, dull gwahanol i'r un arferol, dull sy'n golygu mynd yn arafach, yn ymchwilgar, yn heriol, yn disgwyl cael ein synnu. Byddwn yn effro i negeseuon newydd, i bethau na sylwon ni arnynt cynt. Edrychwn ar y cyfarwydd o berspectif gwahanol.

O roi cynnig ar hyn, chawn ni mo'n siomi! Ac os ydych yn mynd i Gaernarfon rhywbryd, ewch am dro ar hyd y Lôn Las, hyd yn oed os ydych yn gyfarwydd â hi.



'Chwiliwch yr ysgrythurau: canys ynddynt hwy yr ydych chi yn meddwl cael bywyd tragwyddol: a hwynt-hwy yw'r rhai sydd yn tystiolaethu amdanaf fi.' Ioan 5: 39

# Teithio trwy'r twneli

### *gan Dr Huw Tegid Roberts*

Bydd darllenwyr y *Gwyliedydd* yn y gogledd yn hen gyfarwydd â lôn brysur yr A55 ar hyd yr arfordir. Ar y daith rhwng hen siroedd Clwyd a Gwynedd, mae rhywun yn mynd drwy dri thwnnel erbyn hyn, gan gynnwys yr un sy'n mynd â chi o dan aber afon Conwy. Cyn llunio'r twnnel hwnnw a'r ddau dwnnel ychwanegol ym Mhenmaenbach a Phen-y-clip, roedd y daith yn cymryd tipyn mwy o amser, a bydd nifer ohonoch chi'n cofio'r ciwiau hir drwy dref Conwy, dwi'n siŵr. Byddem, fel teulu, yn aml yn cael ein dal yn y ciwiau hynny pan fyddem yn mynd i weld chwaer fy nhad yn nhref Mostyn yn Sir y Fflint. Atgof arall am y teithiau ar hyd yr A55 yn y cyfnod hwnnw yw'r modd yr oedd cymaint o yrwyr yn canu corn wrth fynd drwy dwnnel gwreiddiol Penmaenbach. Bryd hynny, roedd traffig yn mynd y ddwy ffordd drwy'r twnnel hwnnw, ac roedd sŵn y cyrn amrywiol yn diasbedain drwy'r twnnel cyfan. Yn blant y 1980au, heb na ffôn, iPad na theclyn Kindle i'n difyrru ni yn y car, roedd nesu at y twnnel hwnnw'n brofiad cyffrous i'm brodyr a minnau, a byddem yn annog dad neu mam i gofio ymuno yng nghôr y cyrn cyn cyrraedd y pen arall.

Pan fydd rywun yn oedi i feddwl am y peth, mae mynd drwy dwnnel yn brofiad swrrealaidd iawn i blentyn. Ar ôl milltiroedd o lôn agored, yn sydyn iawn roedd rhywun mewn lle tywyll. Ar amrantiad, roedd signal y radio yn gwanio, a dim ond sŵn aflafar i'w glywed drwy'r seinyddion. A phan oedd hi'n tywallt y glaw, byddai clywed y weipars yn llusgo'n swnllyd dros y sgrin wynt sych yn mynd dan eich croen chi, braidd, nes byddai eu hangen nhw eto'n sydyn iawn ar ôl dod allan o'r twnnel. Yn yr isymwybod, mae'n siŵr bod clywed sŵn siriol y cyrn yn cael eu canu yn gysur yn yr amgylchedd anarferol hwnnw, yn enwedig os oedd ambell fwlb yn y twnnel wedi diffodd, a phethau gryn dipyn tywyllach na'r arfer. Ac os oedden ni'n teimlo rhywfaint o ansicrwydd yn y lle rhyfedd tanddaearol hwnnw, roedd cyfri faint o bobl oedd yn canu eu cyrn yn help i ni gyrraedd y pen arall yn gynt.

Ysywaeth, tynhawyd y gyfraith ynghylch canu cyrn ceir erbyn hyn, a phrinhau'n raddol wnaeth yr arfer o ganu corn yn gyfeillgar yn y twneli. Er bod rhywun yn deall y rhesymeg dros gyfyngu ar ddefnyddio cyrn ceir, gresyn hynny mewn ffordd – roedd clywed y cyrn yn seinio yn ddifyrrwch ar deithiau hir, ac yn rhoi cysur i ni bod teithwyr eraill o'n cwmpas ni wrth i ni fynd drwy le tywyll. Os mai rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol ydi canu cyrn yn nhwneli'r A55, beth tybed am gadw cwmni a chodi hwyliau rhai sy'n mynd drwy dwneli haniaethol bywyd – y rhai sy'n gweld y golau ym mhen draw'r twnnel ymhell i ffwrdd, fel petai? Fe ddaw'r profiad hwnnw o fynd drwy le tywyll i bob un ohonom yn ein tro. Gyda hynny mewn cof, peidiwn ag anghofio gwerth y 'canu cyrn' er lles eraill wrth fynd ar ein hynt – gadael i bobl wybod bod rhywun arall gyda nhw, ceisio codi hwyl pan fydd pethau'n ddiflas, ac annog cymdeithion i ddal ati nes byddwn ni'n cyrraedd y goleuni ym mhen draw'r twnnel. Aeth y profiad o deithio ar hyd yr A55 yn llawer mwy unigolyddol a hunanol, gyda phawb ar wib yn canolbwyntio ar eu taith eu hunain. Ai felly mae bywyd yn gyffredinol erbyn hyn – gwibio ar ras, heb ystyried yr hyn y gallwn ni ei wneud dros eraill ar eu taith hwythau? Rhywbeth i ni feddwl amdano y tro nesaf y byddwn ni ar daith drwy dwneli.







## METHIANT PERSONOL?



Wrth edrych ar y pennawd uchod, mae llinell o gerdd R. Bryn Williams *Credo* yn mynnu dod i'r meddwl –

"Gŵyr faint fy methiant a'm dyheu".

Mae angen dewrder ("digon o gyts" fel y dywedwn) mewn bywyd, ac yn sicr yn y byd Eglwysig, er mwyn cyfaddef unrhyw fethiant a hynny yn gyhoeddus i'r holl fyd. Tynnaf fy het, pe bawn yn gwisgo un, i Archesgob Caergaint sef Justin Welby am gyfaddef ei fethiant ddechrau'r haf eleni. Yn ystod sesiwn o gwestiwn ac ateb mewn Gŵyl Cyfryngau Crefyddol arllwysodd ei fol yn llwyr a chanmolaf ef am hyn. Nid wyf erioed wedi clywed yr Archesgob Welby yn pregethu yn fyw, dim ond ar y teledu. Roeddwn yn edrych ymlaen at ei glywed yng Nghadeirlan Bangor ar achlysur canrif ers Datgysylltu yr Eglwys yng Nghymru yn 2020 ond cafodd ei ganslo yn anffodus oherwydd Covid.

Pan holwyd yr Archesgob am "y gostyngiad brawychus" sef traean yn llai yn mynychu gwasanaethau Eglwys Loegr yn ystod ei gyfnod ef o ddeng mlynedd yn y barchus arswydus swydd, cynigiodd atebion personol, di-flewyn-ar-dafod a didwyll iawn. Meddai: "Yn syml, methiant personol ar fy rhan i – hyd yn oed os nad wyf yn gyfrifol am hyn, rwyf yn sicr yn atebol amdano. Dywed llawer o bobl wrthyf na ddylwn ddweud y fath beth ond dyna a deimlaf yn bersonol". Aeth ymlaen i ddweud – "nid wyf yn siŵr beth arall y gellid bod wedi ei wneud. Oherwydd yn y diwedd nid yw dyfodol yr Eglwys a'i goroesiad yn ddibynnol ar archesgobion; yn hytrach dibynna ar Dduw a rhagluniaeth Duw. Ac yn ystod dwy fil o flynyddoedd rydym wedi bod mewn lleoedd gwaeth o lawer na hyn". Rhaid cydnabod fod yr Archesgob Welby wedi gorfod llywio yr Eglwys, yn ei eiriau ei hun, trwy ddeng mlynedd a oedd yn anghredadwy o gythryblus a dadleuol gyda chyffro gwleidyddol, pandemig, marwolaeth brenhines a dadleuon chwerw ac astrus iawn o fewn yr Eglwys ar amrywiol bynciau. Roedd amryw yn cwestiynu a oedd rhaniadau dwfn a diddiwedd ynglŷn â rhywioldeb wedi dod ar draul cenhadaeth ond ateb yr Archesgob i hyn oedd: "O fewn bywyd yr Eglwys mae gofal a chariad at ein gilydd yn golygu fod yn rhaid i ni wrando ar y naill a'r llall ac nid gwthio barn un grŵp ar bobl sy'n anghytuno'n llwyr".

## DIODDEFWYR NOTTINGHAM

Bellach mae myfyrwyr wedi dychwelyd i'r colegau ac mae prifysgol a strydoedd Bangor gerllaw fy nghartref yn llawn ohonynt. Dymunwn yn dda i bob myfyriwr. Ond mae erchylltra yr hyn a ddigwyddodd yn Nottingham ddechrau Mehefin yn dal yn fyw iawn yn y cof. Llofruddiwyd tri yno gyda dau ohonynt yn fyfyrwyr pedair ar bymtheg oed. Cofiwn am deuluoedd y myfyrwyr Barnaby a Grace a'r gyrrwr fan Ian Coates a lofruddiwyd. Roedd ymateb y frawdoliaeth Gristnogol o bob enwad yn Nottingham adeg y digwyddiad echrydus yn un arbennig iawn – gwelwyd enghraifft arbennig o dosturi ac ymgeledd ar waith. Cyffyrddwyd llawer o weld ar y teledu luniau'r holl bobl oedd yn bresennol yn yr wylnos. Rhyw gocyn hitio yn aml yw caplaniaethau o fewn amrywiol sefydliadau a sefyllfaoedd. Sawl gwaith y clywais rai yn dweud mai mewn gofalaethau a phlwyfi yn unig y mae lle offeiriad a gweinidog i fod! Cefais fy nghyffwrdd o weld yr Eglwys Gristnogol yn Nottingham ar waith ac yn uniaethu mor neilltuol â'r sefyllfa dorcalonnus. Dywedodd un ohonynt sef y Parchedig Christopher Harrison: "Cafwyd ymateb anhygoel i'r wylnos gyda'r lle yn llawn o fyfyrwyr ... bydd y galar yn parhau ac i deuluoedd a chyd-fyfyrwyr Barnaby a Grace a theulu Ian Coates bydd y weithred ysgeler yn peri loes am amser hir".

## SYMUD CARREG FFIAIDD I'R DRWS NESAF!


Mae carreg goffa i bennaeth caethwasiaeth a oedd yn arddangos iaith ffiaidd, wedi ei symud o addoldy Sant Pedr yn Dorchester a'i chartrefu ar fenthyg yn Amgueddfa Sirol Dorset sydd drws nesaf i'r Eglwys. Rhoddwyd caniatâd ffacwlti i'w ail leoli yn Amgueddfa Cyngor Dorset gan Lys Eglwysig Esgobaeth Caersallog. Mae'r gofeb yn coffáu y Dr John Gordon a fu farw yn 1774 yn 46 oed. Roedd wedi bod yn oruchwyliwr ar fwy nag un blanhigfa ac roedd yn berchen ar 416 o gaethweision. Roedd yr iaith ar y gofeb yn peri gofid mawr, gan nodi mai Gordon oedd yn gyfrifol am ostegu gwrthryfel peryglus honedig y caethweision yn Jamaica yn 1760. Mae'r geiriau ar y gofeb yn llawn ymffrost ac yn ffiaidd, gan fynegi pa mor ddewr oedd Gordon yn sicrhau fod y negroaid (mae'r gair hwn ar y gofeb) wedi ildio iddo ef. Cysylltodd y Ficer a Wardeniaid yr addoldy ag Esgobaeth Caersallog gan ddweud, ymhlith pethau eraill, fod yr eirfa yn wrthun ac yn gwbl wrthwyneb i athrawiaeth Gristnogol. Mynegodd un o Wardeniaid yr Eglwys fod y



broses wedi bod yn un hir a bod consýrn wedi'i fynegi am yr eirfa rai blynyddoedd yn ôl. Beth fuasech chwi ddarllenwyr y cylchgrawn hwn yn ei wneud â charreg ffiaidd o'r fath a oedd mewn addoldy cyhyd? Ai ei symud drws nesaf?



# TUDALEN Y PLANT



## LABRINTH

Mae'r bobl yma yn cerdded llwybr labrinth. Maen nhw yng nghadeirlan Chartres yn Ffrainc, lle enwog iawn. Maen nhw'n dilyn y patrwm i gyrraedd y canol, wedyn yn ôl allan. Fedrwch chi ddim mynd y ffordd anghywir mewn labrinth fel mewn drysfa. Wrth gerdded y labrinth bydd pobl yn cofio fod Iesu'n cerdded gyda ni bob amser.



Gallwch chi greu labrinth eich hun gan ddefnyddio Lego, cerrig neu fotymau fel yn y llun yma.

**Beth am ddilyn y camau o 1 i 7 er mwyn lluniadu labrinth.**

